**TUDALEN 1**

Cofnodion y **Cyfarfod Blynyddol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, a thrwy fideo-gynadledda Zoom, **Nos Lun, 10 Mai 2021** am 6.30 p.m.

**YN BRESENNOL: -** Ei Deilyngdod y Maer Cynghorydd John Wyn Williams
Y Dirprwy Faer Cynghorydd Owen Hurcum
Cynghorwyr : Les Day, Luke Tugwell, Medwyn Hughes, George Turner, Enid Parry, Elin Walker Jones, John Martin, John Wynn Jones, Kieran Jones, Gwynant Roberts, Mair Rowlands
Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro, Gwynfor Owen (Cyfieithydd)

**Am 6.30 pm daeth Ei Deilyngdod y Maer, gyda'r Cyfarwyddwr Dinesig a'r Cynghorydd John Wynn Jones, i mewn i Siambr y Cyngor.**

**Galwodd y Maer ar y Cynghorydd John Wynn Jones i offrymu gweddi.**

**01/21 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dylan Fernley a Nigel Pickavance.

**02/21 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim.

**03/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**
Roedd nifer o'r cyhoedd wedi dod i gefnogi'r Cynghorwyr.

**04/21 GWEITHDREFNOL**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer oedd yn ymadael, sef y Cynghorydd John Wynn Williams, a rhodiodd anerchiad byr ar ddiwedd ei gyfnod fel Maer am ddwy flynedd.

Dywedodd iddi fod yn flwyddyn ryfeddol. Fel arfer, byddai'n nodi ble y bu a'r hyn a wnaeth fel Maer, ond wrth gwrs, daeth popeth i ben yn sgil Covid-19. Wedi dweud hynny, bu'n flwyddyn eithriadol o bwysig a phrysur mewn ffyrdd eraill. Roedd y Cyngor wedi ceisio helpu pobl y Ddinas, yn enwedig y rhai mewn argyfwng. Dywedodd ei fod wedi treulio wythnosau cyntaf y cyfnod clo, gyda chymorth Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro yn gwneud yr hyn a allent i bobl Bangor. Roedd am fynegi ei ddiolch i Martin Hanks, oedd fod i weithio dau ddiwrnod yr wythnos, ond a fu mor barod i fod ar ben arall y ffôn ymhell y tu hwnt i'r ddau ddiwrnod.

Bu ailstrwythuro'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Yn lle Clerc traddodiadol, penodwyd Iwan Williams yn Gyfarwyddwr Dinesig. Dywedodd y bydd gan y Cyfarwyddwr Dinesig rôl bwysig yn arwain ar brosiectau, hefyd yn cyfrannu yn y camau cyntaf o gynllunio i'r dyfodol. Roedd eisoes wedi cael cyfarfodydd gydag asiantaethau a phartneriaethau a Chyngor Gwynedd. Roedd am ddymuno'n dda i'r Maer newydd wrth adeiladu ar y prosiectau. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y ddwy flynedd.

**TUDALEN 2**

Cyn cloi, mynegodd y Maer dristwch y Cyngor o glywed am farwolaeth y cyn-Gynghorydd Dewi Llewelyn ychydig ddyddiau ynghynt a hynny mor ddisymwth. Galwodd ar y Cyng John Wynn Jones, cyfaill mawr i Dewi, i ddweud gair amdano.

Dywedodd y Cyng John Wynn Jones fod Dewi Llewelyn wedi cynrychioli ward Deiniol ar Gyngor y Ddinas o 1995 tan 2017. Bu'n gynghorydd gweithgar ac egnïol. Nid oedd yn or-hoff o'r rôl gyhoeddus gan mai "dyn gwneud yn hytrach na dweud" oedd Dewi. Roedd yn uchel ei barch ac yn gymwynaswr ymarferol, ond hefyd yn hawdd ei sgwrs ac o natur ddireidus. Dywedodd y byddai'n ei golli'n fawr yn bersonol ond bod y golled ar yr aelwyd ym Modlondeb yn llawer mwy. Estynnwyd cydymdeimlad â'r teulu a safodd pawb am funud i gofio'n annwyl am y cyn-gynghorydd Dewi Llewelyn.

**05/21 ETHOL MAER**

Gofynnodd y Maer am gynigion ar gyfer ethol Maer am y Flwyddyn Ddinesig oedd i ddod, 2021/22.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Owen Hurcum. Ni chynigiwyd enw arall.
Cynigiwyd gan y Cyng Mair Rowlands ac eiliwyd gan y Cyng John Martin. Dywedodd y Cyng Rowlands ei bod yn bleser enwebu Owen Hurcum. Yn ei gyfnod fel cynghorydd roedd Owen wedi dangos angerdd aruthrol dros Fangor a gwella'r ddinas. Diolchodd hefyd i'r Cyng John Wyn Williams am ddwy flynedd o arweiniad cadarn mewn cyfnod heriol.

**PENDERFYNWYD:** ethol y Cynghorydd Williams yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig oedd i ddod.

Gadawodd y Maer y Siambr i gael ei arwisgo.

Ar ôl dychwelyd i'r Siambr, urddwyd y Maer newydd gyda Chadwyn y Swydd, yna darllenodd a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd fel Maer Cyngor Dinas Bangor yng ngŵydd y Cyfarwyddwr Dinesig, fel Swyddog Priodol y Cyngor a lofnododd y Datganiad hefyd.

**06/21 ANERCHIAD GAN EU TEILYNGDOD Y MAER**

Diolchodd y Maer newydd i bawb a dywedodd y byddai'n fraint dilyn y Cyng Williams. Pan gafodd y Cyng Hurcum eu hethol yn Ddirprwy Faer ddwy flynedd yn ôl, dyna oedd anrhydedd mwyaf eu bywyd. Bangor yw eu cartref, mae heriau yn wynebu'r Cyngor ond gyda'r tîm hwn gallwn wneud pethau mawr i Fangor. Diolchodd i'r Cynghorydd Rowlands am eu cynnig ac i'r Cynghorydd Martin am eilio. Y tro cyntaf ers 3 mlynedd i Faer Bangor beidio â bod yn John Wyn! Roedd y Maer yn deall mai nhw oedd Maer ieuengaf Cymru a'r Maer anneuaidd cyntaf ac roedd mor ddiolchgar i'r cyngor a'r ddinas am ganiatáu iddo arddel ei hunaniaeth.

Dywedodd mai eu Gydweddog fyddai Shane Parsons.

**07/21 ETHOL DIRPRWY FAER**

Gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer penodi Dirprwy Faer. Cynigiwyd enw'r Cynghorydd Gwynant Roberts ac eiliwyd ef. Ni chynigwyd enw arall.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Gwynant Roberts yn Ddirprwy Faer Dinas Bangor am y Flwyddyn Ddinesig i ddod, 2021/2022
Arwisgodd y Maer y Cynghorydd Roberts gyda chadwyn Swydd y Dirprwy Faer.

Diolchodd y Cynghorydd Gwynant Roberts i'r Cyng John Wynn Jones a'r Cyng Elin Walker Jones am gynnig ac eilio ac i'r cynghorwyr am ei ethol. Diolchodd i'r Cyng John Wyn Williams am ddwy flynedd galed o waith a llongyfarchodd y Cyng Hurcum ar ddod yn Faer.

**08/21 COFNODION Y CYNGOR**

(i) Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Asedau a Gwyrddio a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.

PENDERFYNWYD fod y cofnodion yn gywir.

(ii) Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021

PENDERFYNWYD fod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

(iii) Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2021.

PENDERFYNWYD fod y cofnodion yn gywir.

**09/21 PENODI PWYLLGORAU AC AMSERLEN CYFARFODYDD**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod pawb wedi cael copi o'r strwythur newydd a'r amserlen. Y dasg gyntaf i bob pwyllgor fyddai penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd. Roedd angen cymeradwyo'r awgrym fod yr aelodau ar y pwyllgor am uchafswm o 5 mlynedd a'r Cadeirydd a'r Dirprwy am 2 flynedd. Awgrymwyd hefyd fod angen trafod y dyddiadau, roedd hi'n bosibl y byddai angen bod yn hyblyg er mwyn cael cyfarfodydd ychwanegol.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r strwythur a'r amserlen newydd yn amodol ar drafod a chadarnhau'r uchod.

**10/21 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL A MUDIADAU LLEOL**

Cynigiwyd parhau â'r un cynrychiolwyr am y tro. Roedd pawb o blaid hyn.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.13 p.m.